


LLEISIAU GWENT: LLYWIO GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL



CYFLWYNIAD



Amlygodd pobl a lleisiau cymunedol Gwent, ynghyd â dull “person cyfan, system gyfan”, fod Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn peri pryder sylweddol yng Ngwent a ledled Cymru. Roedd mynediad Plant a Phobl Ifanc at gymorth iechyd meddwl yn ysgogi'r angen am welliant a amlygwyd yn yr adroddiad ar y cyd gan yr arolygiaethau iechyd, gofal ac addysg yng Nghymru.

Mae Llais eisiau sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, felly gwnaeth Iechyd Meddwl yn flaenoriaeth ffocws yng Ngwent ar gyfer 2024–25. Fe wnaethom gynnal cymysgedd o ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i ddal lleisiau staff sy'n gweithio yn y maes, pobl a chymunedau:

- Arolwg Iechyd Meddwl
- Ymgysylltu ar y safle mewn wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol
- Trawsnewid y Ddesg Dyletswydd Iechyd Meddwl Cymunedol
- gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Mewnwelediadau o'n Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion
- Cyd-gynhyrchiad gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o'r
- Datganiad Gweledigaeth ar gyfer Strategaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- Sgyrsiau cynnar ac ymglymiad Llais â'r Coleg Adferiad Lleol

EIRIOLAETH AC YMHOLIADAU CWYNION

Os oes angen i bobl godi pryder am Wasanaeth GIG neu Ofal Cymdeithasol, mae gennym wasanaeth eiriolaeth cwynion pwrpasol sy'n darparu'r cymorth am ddim, annibynnol a chyfrinachol y mae gan bobl hawl iddo.

Fe wnaethom gefnogi 49 o bobl i godi pryder neu ymholiad mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Roedd pryderon ac ymholiadau mewn perthynas ag ymarfer clinigol, yn enwedig triniaeth a diagnosis a phroblemau gyda chyfathrebu.

STORI EFFAITH EIRIOLAETH...

Roedd Mr A* yn teimlo ei fod heb gefnogaeth wrth wasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Ar ôl cyn-asesiad ym mis Hydref 2022, ni ddigwyddodd apwyntiadau dilynol a addawyd erioed. Er gwaethaf nifer o alwadau, dim ond i'r dderbynfa y cyrhaeddodd a bu'n rhaid iddo ffonio 111 am gefnogaeth. Ym mis Chwefror 2023, darganfu ei fod wedi cael ei ryddhau ym mis Ionawr heb gael ei hysbysu. Parhaodd ymdrechion i gael mynediad i'r gwasanaeth, ond cafodd apwyntiadau eu canslo dro ar ôl tro, gan arwain at ofal anghyson. Ym mis Tachwedd 2023, cafodd Mr A ei gyfeirio at y tîm triniaeth gartref, ond daeth y gefnogaeth i ben ym mis Rhagfyr er gwaethaf ei argyfwng parhaus. Bu'n rhaid iddo ddibynnu ar feddyginiaeth a ragnodwyd gan feddygon teulu ac wynebodd fwy o apwyntiadau wedi'u canslo, gan effeithio ar ei ofal. Cyflwynodd Mr A gŵyn ym mis Gorffennaf 2024, a gadarnhaodd ofal annigonol ac anghyson. Sicrhaodd y Swyddog Ymchwilio ei fod wedi gweld seicolegydd ac mae'n aros am driniaeth, gyda dau adolygiad meddyginiaeth gan seiciatrydd ymgynghorol newydd.

"Helpodd cyfranogiad Llais i mi ddod o hyd i'm llais a symud o le tywyll tuag at y golau. Roeddwn i'n teimlo ei fod wedi gwrando arnaf a'm cefnogi".

AROLWG IECHYD MEDDWL



Roedd cymysgedd o brofiadau ymhlith pobl a chymunedau. Mynegodd llawer o bobl rwystredigaeth gyda hygyrchedd ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl brys, sy'n aml yn gofyn am lywio trwy feddygon teulu ar gyfer atgyfeiriadau.

Roedd amseroedd aros hir a chyfathrebu anghyson yn bryderon cyffredin, gyda rhai pobl yn tynnu sylw at y diffyg opsiynau cyswllt uniongyrchol a'r angen am system brysbennu symlach. Yn ogystal, roedd pryderon am ansawdd gofal, fel gofalmwr dibrofiad a'r angen am gymorth mwy arbenigol, yn enwedig ar gyfer cyflyrau fel awtistiaeth.

Dywedodd rhai pobl wrthym am eu profiadau, yn enwedig gyda gwasanaethau penodol fel 111 Opsiwn 2 a sesiynau cwnsela. Canmolwyd y gwasanaethau hyn am eu defnyddioldeb a'r effaith gadarnhaol a gafodd ar iechyd meddwl pobl.

Fodd bynnag, mae'r teimlad cyffredinol yn awgrymu bod angen gwelliannau sylweddol mewn hygyrchedd, cyfathrebu, ac ansawdd y gofal a ddarperir gan wasanaethau iechyd meddwl i ddiwallu anghenion y gymuned yn well.

YMGYSYLLTU Â CHLEIFION MEWNOL



IYm mis Chwefror 2025, cynhaliodd Llais ymgysylltiadau ar y safle mewn sawl ward iechyd meddwl cleifion mewnol yng Ngwent.

I gasglu mewnwelediadau, aethom i'r safleoedd canlynol:

- 1) Ysbyty Sant Cadog, Ward Adferiad**
- 2) Ysbyty Aneurin Bevan, Ward Carn-Y-Cefn**
- 3) Ysbyty Ystrad Fawr, Ward Ty Cyfannol**
- 4) Ysbyty Ystrad Fawr, Ward Annwylfan**

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o bobl ar draws y pedair ward yn hapus gyda'u profiad cleifion mewnol.

Soniodd staff am broblemau gyda throsglwyddiadau gofal cymdeithasol ac ymgysylltu â phobl ifanc mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS).

"Y cleifion a helpodd fy therapi. Dydyn ni ddim yn yr un cwch, yn hytrach yn yr un storm"

CYDWEITHREDIAD MEWN GOFAL LLEISIAU'R CYMOEDD

Together, with the Community Mental Health Team Duty Desk (CMHT) in Blaenau Gwent and ABUHB Mental Health and Learning Disabilities (MHL) Q-nnovation Hive, we recognised challenges locally that highlighted the need for improved integration, clearer pathways, a standardised initial assessment process and utilisation of an electronic booking system that enhances efficiency and effectiveness in service delivery.

Gwahaniaethau yn y llwybr:

Mae cyswllt cychwynnol "yn bersonol" a'r asesiad cychwynnol bellach yn digwydd o fewn 24 awr ar ôl derbyn yr atgyfeiriad. Cynigir Cyfeirio Cyfannol hefyd ar hyn o bryd. Cyn y newidiadau, gallai cyswllt personol cychwynnol a chyfeirio cymryd hyd at 2 wythnos.

Atgyfeirio proffesiynol
(iechyd/gofal
cymdeithasol/heddlu)

LLWYBR CYN I NEWIDIADAU GAEL EU GWNEUD:

Ffôn/e-bost/111
gwasgwch 2

Tîm Iechyd
Meddwl
Cymunedol

Asesiad llawn
(2-3 awr)

Hyd at 2
wythnos o
aros

Hunan-gyfeirio
unigol (yn hysbys i
wasanaethau yn
flaenorol)


Nodi'r canlynol:

- > Cyfeirio – cyfannol – a/neu
- > Cymorth sy'n ofynnol ar gyfer gofal cyfannol e.e., CAB
- > Rhyddhau, nid oes angen cymorth na chyfeiriad pellach
- > -Derbyn i gleifion mewnol
- > Cytuno Gofal yn Agosach at Adref

Tîm Iechyd Meddwl
Cymunedol: Dilynol/2il
apwyntiad/cyfeirio ac ati
os oes angen

Y LLWYBR AR ÔL I'R NEWIDIADAU GAEL EU GWNEUD:

Atgyfeirio proffesiynol
(iechyd/gofal
cymdeithasol/heddlu)



Roedd Llais eisiau clywed gan y rhai a gafodd y gwasanaethau, cyn ac ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud i ddeall effaith newid gwasanaeth i bobl a staff.

Adborth pobl:

- Haws cysylltu a chael cymorth pan fydd ei angen arnaf
- Teimlo bod pobl yn gwrando arnaf ac yn fy nghynnwys mewn penderfyniadau a wnaed am fy ngofal

Adborth Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol:

- Atgyfeiriadau meddygon teulu yn fwy ystyrlon
- Gwell dealltwriaeth o'r rolau gwahanol rhwng gwahanol ddisgyblaethau, gan arwain at berthynas waith a morâl mwy cadarnhaol
- Gwell adnoddau i gyfeirio atynt yn y gymuned
- Teimlo'n fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau gyda chefnogaeth cymheiriaid


Yn gyffredinol, mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff wedi profi newidiadau cadarnhaol oherwydd y diweddariadau i'r Ddesg Dyletswydd CMHT. Er bod meysydd i'w gwella, mae'r adborth yn dangos bod y newidiadau wedi arwain at well darparu gwasanaethau a phrosesau mwy effeithlon.

MESURAU LLWYDDIANT

Asesiad Cychwynnol	• Mae 100% o'r atgyfeiriadau yn derbyn asesiadau cychwynnol yn cael eu gwneud o fewn 24 awr • Lleihau amser aros cyfartalog ar gyfer asesiad llawn o leiaf 5 diwrnod i lai nag 1 diwrnod • Ymdriniwyd â 95% o achosion brys o fewn 24 awr.
System Bwcio Electronig – Mae trosglwyddo i fwcio electronig ar y gweill trwy hyfforddiant a gweithredu. Mae'r cwmpasu cychwynnol yn nodi'r effaith a fydd ar ôl gweithredu	• Golwg electronig o statws claf yn y system • Lleihau gwallau bwcio â llaw • Cywirdeb wrth ryngwynebu'n uniongyrchol â chofnodion cleifion
Timau Amlddisgyblaethol Integredig (MDT): Perthnasoedd a Gweithgaredd	• Cyfradd presenoldeb o 95% mewn cyfarfodydd MDT wythnosol • 80% o achosion wedi'u datrys o fewn y cyfarfod MDT cyntaf • Mae 85% o aelodau'r tîm yn adrodd gwell cydweithredu
Proses Atgyfeirio a Gwelliannau	• Mae 100% o gleifion yn cael cynnig asesiad cychwynnol o fewn 24 awr i'w derbyn mewn wythnos waith (Llun–Gwener)

Bodddhad Proffesiynol Uwch (arolwg a gyhoeddwyd yn ystod y prosiect)	• Mae 85% o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn adrodd mwy o foddhad swydd • Gostyngiad o 40% mewn achosion o flinder tosturi a adroddwyd • Mae 80% o weithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod wedi'u grymuso wrth wneud penderfyniadau
Gwell Cyfathrebu ac Ymddiriedaeth	• Gwell cyfathrebu a chysondeb mewn llwybrau • Rôl adborth annibynnol Llais
PREMs (Mesurau Profiad a Gofnodwyd gan Gleifion)	• Casglodd y prosiect 'PREMs' penodol i gefnogi'r Newidiadau i'r Prosiect • Bydd Gwasanaeth Cyson 'PREMs' yn cael ei gynnis i bob claf o fis Ebrill 2025

Cydweithrediad mewn gofal





DIOLCH

Trwy adborth gan staff ar draws iechyd a Gofal Cymdeithasol, pobl a chymunedau, mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar bwysigrwydd gofal iechyd meddwl hygyrch, effeithlon ac o ansawdd uchel.

Mae newidiadau cadarnhaol wedi'u nodi, yn enwedig mewn cyfathrebu a darparu gwasanaethau, ond mae ymdrechion parhaus yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau parhaus.

Mae Llais Gwent yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynrychioli lleisiau pobl, cymunedau, ac eiriol dros well gwasanaethau iechyd meddwl

Diolch i bawb a gyfrannodd eu profiadau a'u hadborth, gan ein helpu i yrru newid ystyrlon mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

FFORMATAU HYGYRCHOL

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iath arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan newu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa

Adborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed beth chi'n ei feddwl am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau am sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

Manyllon cyswilt

Rhanbarth Llais Gwent,
Tŷ Raglan,
Parc Busnes,
Llantarnam,
Cwmbran
NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516
E-bost:
ymholiadaugwent@llaiscymru.org
Website: www.llaiscymru.org
Facebook: @gwentllais
X: Llais_wales